Pryniant arfaethedig Dwr Cymru Cyfyngedig gan Glas Cymru Cyfyngedig

Papur sefyllfa gan Ofwat

Ionawr 2001

CYNNWYS

CRYNODEB A CHASGLIADAU'R CYFARWYDDWR		**2**
1.	**Y CYNNIG**	**5**
2.	**YMGYNGHORIAD**	**5**
3.	**ASESIAD OFWAT**	**6**
4.	**CASGLIADAU**	**9**
5.	**Y FFRAMWAITH RHEOLEDIG**	**11**
6.	**DIWYGIADAU TRWYDDED**	**12**
ATODIAD A:	**YMGYNGHORIAD**	**13**
ATODIAD B:	**CRYNODEB O'R DIWYGIADAU TRWYDDED ARFAETHEDIG**	**17**

CRYNODEB A CHASGLIADAU'R CYFARWYDDWR

Rwyf wedi ystyried yn ofalus yr ymatebion i ymgynghoriad Ofwat ar gynigion gan Glas Cymru Cyfyngedig (Glas) i brynu Dwr Cymru Cyfyngedig (Dwr Cymru).

Yn sgil y rhain ac ystyriaethau eraill sy'n cael eu hesbonio yn y papur hwn, rwy'n casglu, rhwng pob dim, a bod Glas yn:

(i) cytuno i'r diwygiadau trwydded a ddisgrifir yn Atodiad B;
(ii) rhoi ymroddiad cyhoeddus i fuddion cwsmeriaid;
(iii) cyhoeddi ei gynlluniau anogaeth ar gyfer rheolaeth weithredol;
(iv) darparu datganiad cyhoeddus ar ei ymroddiad i gyfyngu ei weithgareddau i'r pwrpas unigol o ddarparu gwasanaethau dwr a charthffosiaeth;
(v) rhoi ymrwymiad cyhoeddus i benodi aelodau Glas ar sail arfer gorau;
(vi) cadarnhau nad yw'r hawliau a gynigir ar gyfer deiliaid bond yn atal dyletswyddau'r Cyfarwyddwr dan Ddeddf Diwydiant Dwr 1991;

na ddylai Ofwat wrthwynebu'r cynigion a dylid caniatáu Glas i brofi pa un a all gael y cyllid sydd ei angen, ar farc credyd gradd buddsoddi sy'n gyson â'i gynllun cyllido.

Mae'n rhaid i Ofwat archwilio unrhyw gynigion a gyflwynir. Byddai'n amhriodol gwrthod cynigion ar y sail y gallai strwythurau neu brynwyr damcaniaethol eraill, mewn theori, gael gwell canlyniad. Wrth ystyried y cynigion hyn, mae Ofwat yn derbyn bod rhaid iddo fod yn fodlon bod buddiannau cwsmeriaid yn ddiogel a bod effeithiolrwydd rheoledig, ar gyfer y Penodedig penodol a'r diwydiant yn ei gyfanrwydd, yn cael ei gynnal. Mae'r rhain yn ofynion parhaus yn yr hirdymor. Mae'n rhaid i Ofwat sicrhau bod materion diogelwch ac ansawdd yn cael eu diogelu'n gywir a'r risg o fethiant yn cael ei leihau. Lle ceir risgiau ychwanegol a allai effeithio cwsmeriaid, mae'n rhaid i Ofwat fod yn fodlon bod y buddion i gwsmeriaid wedi eu sefydlu'n glir ac yn gorbwyso'r ansicrwydd.

Dangosodd yr ymgynghoriad gefnogaeth eang am Glas yng Nghymru, yn enwedig gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ond roedd hyn yn amodol ar ddiogelu buddiannau cwsmeriaid. Tu allan i Gymru, mynegodd ymatebwyr amrywiaeth o farnau. Y cwestiynau allweddol a godwyd yn yr ymgynghoriad oedd:

(i) A fyddai'r strwythur a ariannir yn gyfan gwbl gan ddyledion yn ddigon cryf i wrthsefyll ergydion cost a chanlyniadau rheolaeth wael, o'i chymharu â chwmnïau dwr a ariannir gan ecwiti y mae'r cyfranddalwyr yn berchen arnynt?
(ii) A fyddai absenoldeb cyfranddalwyr yn golygu bod anogaethau ar gyfer parhau ag effeithiolrwydd yn annigonol?
(iii) A fyddai gyrru gwasanaethau'n allanol yn gosod Dwr Cymru mewn sefyllfa i gynnal rheolaeth gywir dros ei waith?

Mae'r cwestiynau hyn yn datgelu'r risgiau allweddol sydd yn y cynigion ac ni ellir eu hosgoi'n gyfan gwbl. Mae ychydig o risg yn codi oherwydd bod cwmnïau sy'n dibynnu'n hollol ar gyllid dyledion a chontractwyr am wasanaethau yn amhrofedig gan y diwydiant dwr yng Nghymru a Lloegr. Fodd bynnag, ceir rhagesiamplau

helaeth, o fewn ac y tu hwnt i'r diwydiant dwr o ran gyrru gwasanaethau allan ac mae patrwm cyffredinol ymysg cwmnïau dwr o gynyddu cyllid dyledion o gymharu ag ecwiti.

Yn erbyn y risgiau hynny, dylai Glas, os yw'n llwyddo gyda'i gynigion ariannu, gael lleihad sylweddol i ddechrau yn ei gost cyfalaf ar gyfartaledd o'i gymharu â chwmnïau dwr yn gyffredinol. Mae costau ariannu yn esbonio oddeutu traean o filiau cwsmeriaid ac er ei fod yn bosibl cael costau gwrthbwysol, er enghraifft i adlewyrchu'r risg i'w gynnal gan gontractwyr, mae'r cynigion yn cynnig y gobaith o fanteision sylweddol i gwsmeriaid.

Mae Glas hefyd wedi lleihau'r risgiau hyn a chwrdd â meini prawf eraill a nodwyd gan Ofwat yn y papur ymgynghori ac yn ymateb Ofwat i'r cynigion ailstrwythuro a symudwyd ymlaen gan Kelda ym Mehefin 2000.

Yn ychwanegol i ofynion Ofwat a osodir allan yn y papur hwn, mae Glas yn cynnig rhagofalon pellach i gwsmeriaid a hapddalwyr eraill. Maent yn cynnwys trefniadau ar gyfer penodi aelodau Glas a'u swyddogaethau i sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar lwyddiant masnachol ynghyd ag archwiliad agos o berfformiad Glas ar ran deiliaid bond, yn enwedig gan yr yswirwyr credyd. Mae'r pris prynu cychwynnol a gytunwyd gan y partïon yn cynrychioli gostyngiad ar y gwerth cyfalaf rheoledig (GCRh) y mar cyfyngiadau pris yn seiliedig arno. Trafodwyd hyn mewn amgylchiadau sy'n helpu i gadarnhau annibyniaeth Glas o'r perchennog presennol, Western Power Distribution (WPD). Mae Glas wedi ymgymryd â rhaglen briodol o ymgynghoriad cwsmeriaid yn ei gynigion wedi ei gyfeirio at sicrhau bod cwsmeriaid yn cael digon o wybodaeth. Mae lled y gefnogaeth gan gwsmeriaid yn gyffredinol yn anoddach i farnu ond roedd y rhai a fynegodd farn yn tueddu i gefnogi'r cynigion.

Gall ansicrwydd ynghylch llwyddiant tymor hirach Glas gael ei brofi dros amser yn unig. Yn benodol, pa un a yw ei strwythur yn ddigon hyblyg neu â digon o anogaeth i ymateb yn effeithiol i ddatblygiadau'r dyfydol yn y diwydiant dwr neu ym marchnadoedd ariannol. Mae'n rhaid i ddarpar ariannwyr farnu drostynt eu hunain y risgiau a'r manteision yn y strwythur.

Fel ymgymerwr trwyddedig, byddai Dwr Cymru yn parhau dan berchnogaeth Glas ac yn agored i reoleiddio ar yr un sail ac yn yr un ffordd â chwmnïau eraill. Byddai cyfyngiadau pris yn cael eu gosod drwy gyfeirio at gymariaethau rhwng bob cwmni. Er enghraifft, ni fyddai consesiynau arbennig yn cael eu gwneud i gyfrif prisiau contract a gafwyd gan Dwr Cymru. I sicrhau eglurder, rwy'n ysgrifennu at reolwyr gyfarwyddwyr bob cwmni dwr ynghylch sut fydd Ofwat yn parhau i berfformio ei swyddogaethau. Rwyf hefyd yn ymgynghori ar ddiwygiad trwydded mewn perthynas â chymal 'chwalfa' (ar hyn o bryd yn nhrwyddedau llai na hanner y cwmnïau) y byddaf yn cynnig y dylid ei gynnwys, er eglurder a chysondeb, yn nhrwyddedau'r holl gwmnïau.

I gloi, mynegwyd pryderon gan ymatebwyr, gan gynnwys gweinidogion Llywodraeth y DU, ynghylch y rhagesiampl y gallai cynigion Glas sefydlu ar gyfer cwmnïau dwr yn Lloegr. Mae gweinidogion wedi dweud wrthyf eu bod yn poeni am y risgiau sydd ynghlwm â'r strwythur newydd. Fodd bynnag, maent yn cydnabod bod yn rhaid i Ofwat gyrraedd barn reoleiddiol annibynnol a bod atebolrwydd democrataidd am

faterion sy'n ymwneud â Dwr Cymru yn gorwedd gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

Nid yw model sydd yn ymddangos yn briodol yn amgylchiadau penodol Dwr Cymru o angenrheidrwydd yn briodol i'r diwydiant dwr yn Lloegr, lle mae'r model cyfranddalwyr ecwiti wedi perfformio'n dda. Mae'n bosibl na fyddai nifer o ffactorau yn achos Glas yn gallu cael eu hailgyflwyno mewn achosion eraill. Mae'r rhain yn cynnwys cefnogaeth eang y corff sy'n ddemocrataidd atebol, y Cynulliad; dymuniad y perchennog presennol i beidio â bod yn rhan o'r sector dwr; gostyngiad sylweddol yn y pris prynu; ac annibyniaeth glir y prynwr a'r gwerthwr.

Er fy mod yn ystyried na all effaith y rhagesiampl posibl benderfynu'r ymagwedd at Glas, buaswn yn rhannu pryder llywodraeth y DU petai nifer sylweddol o gwmnïau dwr yn bwriadu dilyn yr esiampl, cyn i'r model o gwmni allanol a ariannir yn gyfan gwbl gan ddyledion gael ei brofi. Fodd bynnag, bydd Ofwat yn parhau i arolygu unrhyw gynigion a gyflwynir iddo â gofal a thegwch.

Philip Fletcher
Cyfarwyddwr Cyffredinol y Gwasanaethau Dwr

1. Y CYNNIG

Ar 3 Tachwedd, cyhoeddodd bwrdd Glas ei fod wedi cytuno termau gydag WPD i brynu Dwr Cymru. Mae Glas yn gwmni a gyfyngir gan warant a ymgorfforir dan Ddeddf Cwmnïau 1985. Bydd corff o aelodau yn berchen arno; ni fydd ganddynt unrhyw fuddiant ariannol a byddai ei fwrdd yn atebol i'r aelodau hyn. Bydd yn cael ei ariannu'n gyfan gwbl gan ddyledion a chyfyngir ei bwrpas i berchnogaeth asedau Dwr Cymru a fyddai'n cael eu rheoli drwy gyfres o gontractau a yrrir allan.

Cyhoeddodd Ofwat bapur ymgynghori ar 10 Tachwedd 2000[1] yn gosod allan ei farn ynghylch y materion allweddol a oedd yn deillio o'r cynigion. Gwahoddwyd sylwadau erbyn 18 Rhagfyr 2000. Mae'r papur hwn yn gosod allan asesiad Ofwat o'r cynigion yn dilyn yr ymgynghoriad.

2. YMGYNGHORIAD

Derbyniodd Ofwat dros 50 ymateb i'r papur ymgynghori. Ni nododd yr ymgynghoriad unrhyw faterion newydd sylweddol. Roedd pryderon mwyafrif yr ymatebwyr yn debyg i'r rhai a nodwyd ym mhapur ymgynghori Ofwat, er bod grwpiau gwahanol yn pwysleisio agweddau gwahanol yn gryfach nag eraill.

Roedd hapddalwyr Cymreig, yn enwedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru[2] a'r Pwyllgor Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymru (PGC), yn croesawu'r cynigion ar y mwyaf. Mynegodd hapddalwyr eraill ystod o farnau ond roedd y mwyafrif yn canolbwyntio ar dri phrif gwestiwn:

(i) A fyddai'r strwythur a ariannir yn gyfan gwbl gan ddyledion yn ddigon cryf i wrthsefyll ergydion cost a chanlyniadau rheolaeth wael, o'i chymharu â chwmnïau dwr a ariannir gan ecwiti y mae'r cyfranddalwyr yn berchen arnynt?

(iv) A fyddai absenoldeb cyfranddalwyr yn golygu bod anogaethau ar gyfer parhau ag effeithiolrwydd yn annigonol?

(v) A fyddai gyrru gwasanaethau'n allanol yn gosod Dwr Cymru mewn sefyllfa i gynnal rheolaeth gywir dros ei waith?

Roedd y tri mater wedi eu nodi ym mhapur ymgynghori Ofwat. Roedd y papur hwnnw hefyd yn canolbwyntio ar ba un a oedd Glas yn gyfan gwbl annibynnol o'r gwerthwr, o ran digonedd yr ymgynghoriad â chwsmeriaid a rôl aelodau Glas. Yn y papur hwnnw, rhoddodd Ofwat ei farn gyntaf nad oedd cynigion Glas, rhwng pob dim, yn creu anawsterau anorchfygol, os oedd y pecyn o ddiwygiadau trwydded yn cael ei weithredu'n llawn ac y ceir y marc credyd gradd buddsoddiad priodol.

Tu allan i Gymru, mynegodd ymatebwyr bryder ynghylch goblygiadau Glas fel rhagesiampl ar gyfer gweddill y diwydiant dwr yng Nghymru a Lloegr.

---

[1] *Pryniant arfaethedig Dwr Cymru Cyfyngedig gan Glas Cymru Cyfyngedig: Papur ymgynghori gan Ofwat*, Ofwat, Tachwedd 2000.

[2] Mewn perthynas â Dwr Cymru, mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ddyletswyddau tebyg i'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Cludiant a'r Rhanbarthau o ran cwmnïau sy'n gweithredu yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn Lloegr.

Gwnaeth Glas ei ymchwil cwsmer ei hun, mewn ymgynghoriad ag Ofwat a'r PGC. Yn gyffredinol, datgelodd yr ymchwil nad oedd cefnogaeth na gwrthwynebiad cryf i'r cynnig gydag ychydig o gefnogaeth ar gyfer rhai agweddau o'r cynnig.

Mae manylion o ymchwil cwsmer Glas ynghyd â chrynodeb o farn yr ymatebwyr wedi eu cynnwys yn Atodiad A ac mae copïau o'r ymatebion anghyfrinachol i ymgynghoriad Ofwat wedi eu gosod yn llyfrgell Ofwat.

3. ASESIAD OFWAT

Mae Glas yn cynnig strwythur newydd ar gyfer cwmni dwr y byddai ei aelodau'n berchen arno yn hytrach na cyfranddalwyr; byddai'n cael ei ariannu gan ddyledion yn gyfan gwbl a byddai'n gwahanu perchnogaeth asedau o'r gwaith ei hun.

Mae enghreifftiau o bob un o'r nodweddion hyn mewn sectorau diwydiannol eraill ond yn y sector dwr mae'r cyfuniad yn codi materion ynghylch pa mor gadarn a fydd yn yr hirdymor o'i gymharu â'r model a ariannir gan ecwiti y mae cyfranddalwyr yn berchen arno a oedd mewn lle yn ystod preifateiddio.

Mae Ofwat yn croesawu dyfeisgarwch sy'n cyfeirio at wella effeithiolrwydd cwmnïau dwr. Nid oes ganddo farn benodol am y mathau neu strwythurau y dylid eu mabwysiadu. Fodd bynnag, mae'n rhaid i Ofwat fod yn fodlon bod buddiannau cwsmeriaid yn cael eu diogelu ac nad yw ei allu a gallu rheolwyr ansawdd i gyflawni eu dyletswyddau statudol yn cael ei amharu.

Amlinellodd papur ymgynghori Ofwat yr hyn a ystyriwyd y materion a phryderon allweddol a oedd yn codi o'r cynigion a fframwaith a meini prawf ar gyfer eu hasesu. Ers hynny, mae Ofwat wedi ystyried y materion ymhellach yn sgil yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Gosodir asesiad Ofwat o'r cynnig ar gyfer pob un o'r meini prawf yn y fframwaith isod, gan gynnwys y tri phrif fater a nodwyd gan ymatebwyr.

<u>Cynllun ariannu</u>

Mae Ofwat wedi cael trafodaethau helaeth ar y cynllun ariannu gyda Glas, yr asiantaethau marcio credyd a sefydliadau eraill yn y Ddinas yn ystod ac ers yr ymgynghoriad ac mae wedi cael cyngor gan ei ymgynghorwyr ariannol Deloitte & Touche. Mae ymagwedd dyledion strwythuredig Glas yn ffordd newydd o ariannu cwmni dwr rheoledig ac felly bydd elfen o risg yn y cynigion. Fodd bynnag, mae dileu'r risg o amrywiaeth i weithgareddau nad ydynt yn cael eu rheoleiddio yn sylweddol o ran diogelu'r termau ariannu angenrheidiol. Mae Ofwat yn credu y dylai'r cyfyngiad ar weithgareddau fod yn gymwys i Glas a'i holl is-gwmnïau ac mae wedi cynnig amod trwydded newydd i sicrhau hyn.

Mae Ofwat wedi cadarnhau bod Glas wedi sicrhau ymrwymiadau gan ei ariannwyr, gan gynnwys MBIA (cwmni yswiriant credyd yn yr UDA) a fydd yn yswirio canran fawr o'r bond, a mwyafrif o fenthycwyr presennol Dwr Cymru.

Mae'r perygl o'r cwmni'n methu hefyd yn llai oherwydd bod y pris prynu yn ostyngiad i'r RCV. Mae hyn yn darparu cronfeydd amlwg o ran gallu benthyca'r cwmni o'r cychwyn. Mae'n bwriadu ychwanegu at y cronfeydd hyn drwy gadw

gweddillion masnachu, hyd at lefel dybiedig o £350m erbyn 2004-05. Mae Ofwat yn deall y bydd Glas wedi ymrwymo cyfleusterau credyd o oddeutu £150m i ddechrau er mwyn darparu hylifedd ychwanegol i ddiwallu anghenion cyfalaf annisgwyliedig. Mae Ofwat yn derbyn y dylai'r cronfeydd hyn ddarparu ychydig o ddiogelwch yn erbyn ergydion costau.

Os gall Glas sicrhau'r cyfraddau credyd priodol, mae'n ymddangos bod potensial ar gyfer arbediadau sylweddol o ran costau ariannu. Mae costau ariannu yn cynrychioli oddeutu traean o gyfanswm gwariant Dwr Cymru. Mae Glas yn credu y bydd eu cynigion yn eu galluogi i leihau'r costau hyn oddeutu 25%. Er ei fod yn bosibl y bydd costau gwrthbwysol, er enghraifft i adlewyrchu'r risgiau a gariwyd gan gontractwyr, gallai hyn roi manteision sylweddol i gwsmeriaid. I bwysleisio pwysigrwydd y manteision posibl i gwsmeriaid, mae Ofwat o'r farn bod yn rhaid i Glas wneud datganiad polisi cyhoeddus ar ad-daliadau cwsmeriaid, yn debyg i ddatganiad o bolisi rhandal gan gwmni y mae buddsoddwyr yn berchen arno, i sicrhau bod y manteision hyn yn mynd i gwsmeriaid cyn gynted â phosibl.

Yn y tymor byr felly, mae'r cynllun ariannu yn ymddangos yn foddhaol. O dderbyn y bydd Glas yn cyrraedd gweddillion masnachu, ni ddylai'r trefniadau hyn beryglu gallu Glas i gyhoeddi dyled newydd i ariannu ei ofynion buddsoddiad cyfalaf yn y cyfnod 2000-05. Mae hyn yn bwysig oherwydd yr anawsterau a brofwyd gan Hyder ccc a ariannwyd gan ecwiti, perchennog blaenorol Dwr Cymru.

Yn y tymor hirach, mae mwy o ansicrwydd. Ni ellir gwarantu y bydd prisiau contract yn cael eu hadlewyrhcu mewn cyfyngiadau pris. Felly, mae yna berygl na fydd Glas yn gallu gwneud yr arbediadau effeithiolrwydd angenrheidiol ar gyfer Arolygon Achlysurol yn y dyfodol, os nad yw'n ddigon hyblyg yn ei gontractau gwaith neu ei gyllid. Byddai raid iddo ddibynnu wedyn ar ei gronfeydd a byddai hynny'n profi pa mor gadarn yw. Yn ogystal, mae'n bosibl y byddai'r mantais o gostau ariannu is yn cael ei ddileu dros amser petai'r marchnadoedd cyfalaf yn nodi bod lefelau uwch o geriad yn gynaliadwy ar gyfer cwmnïau a ariannir gan ecwiti.

Yn y pen draw, y farchnad fydd yn penderfynu os yw'r cynllun ariannu'n ddichonol a pha un a yw'n barod i ddarparu'r cyllid angenrheidiol ar dermau a fydd yn galluogi Glas i adeiladu cronfeydd a darparu ad-daliadau i gwsmeriaid.

<u>Anogaethau ar gyfer effeithiolrwydd</u>

Mewn egwyddor, mae Ofwat yn dal i gredu nad yw'n debygol y bydd yr anogaeth i Glas, fel cwmni a gyfyngir gan warrant, wneud arbediadau effeithiolrwydd parhaol mor gryf â'r anogaeth fel cwmni dan berchnogaeth cyfranddalwyr. Mae'n bosibl na fydd gan aelodau, yn unigol, ddigon o anogaeth i fonitro perfformiad a rhoi pwysau parhaus ar reolwyr i gael arbediadau effeithiolrwydd. Mae'n debygol y bydd arweinwyr yn canolbwyntio'n bennaf ar ddiogelu eu taliadau llog a chyfalaf yn hytrach na mwyhau effeithiolrwydd.

Fodd bynnag, mae Ofwat yn cydnabod bod Glas wedi ceisio adeiladu mecanweithiau eraill i mewn a gynllunnir i leddfu colli pwysau cyfranddalwyr. Bydd cyflogau rheolwyr yn gysylltiedig â pherfformiad o ran darparu ad-daliadau i gwsmeriaid a gwella statws Dwr Cymru yn asesiadau perfformiad effeithiolrwydd a gwasanaeth

cymharol Ofwat. Mae dadansoddiadau cymharol Ofwat yn dangos mai Dwr Cymru oedd un o'r cwmnïau dwr a charthffosiaeth lleiaf effeithiol. Felly (dan unrhyw berchnogaeth), bydd gan Dwr Cymru gyfle i ddangos gwelliant sylweddol.

Dylai mwyafrif o gyfarwyddwr anweithredol helpu Glas a Dwr Cymru i gynnal ffocws masnachol. Bydd raid i Glas ymrwymo i sicrhau bod y Bwrdd yn cadw'r mwyafrif hwn. Dylai pwysau gan gwsmeriaid ar Glas i gadw at ei ddatganiad cyhoeddus ar ad-daliadau roi anogaeth bellach.

Bydd cynnwys MBIA, a fydd yn yswirio canran uchel o fond Glas, hefyd yn atgyfnerthu'r pwysau hyn, oherwydd bydd ganddo anogaethau ac adnoddau cryfach i fonitro perfformiad Glas na deiliad bond cyffredinol a dylai felly fod yn bwysau masnachol allanol ar Glas i berfformio.

Rheoli gweithrediadau a gyrru gwasanaethau'n allanol

Mae gyrru contractau allan yn y diwydiant dwr yn arferol ond mae'r raddfa a gynigir gan Glas yn newydd. Mae Ofwat yn cytuno â'r Arolygiaeth Dwr Yfed (ADY) ac Asiantaeth yr Amgylchedd na ddylai hyn arwain at gymylu cyfrifoldebau diogelwch a chanlyniadau amgylcheddol.

Mae Glas yn gwbl ymwybodol o'r angen i sicrhau bod Dwr Cymru yn gallu cynnal rheolaeth o'i gyfrifoldebau ac mae Glas wedi cytuno ar ddiwygiadau trwydded a chyfarwyddyd ar reolaeth fewnol ar gyfer Dwr Cymru gydag Ofwat, yr ADY ac Asiantaeth yr Amgylchedd i danlinellu ei atebolrwydd am ddiogelwch ac ansawdd. Mae pawb yn glir bod yr holl gyfrifoldebau'n parhau gyda deiliad y drwydded, Dwr Cymru.

Bydd llwyddiant strategaethau gyrru allan Glas yn dibynnu ar ba raddau y mae marchnad go iawn ar gyfer darparu'r gwasanaethau hyn ac ansawdd rheolaeth Glas. Fodd bynnag, mae yna bosibilrwydd o risg gan nad oes ffordd o wybod beth fydd y canlyniadau.

Mae Ofwat yn gosod pwysigrwydd penodol ar y ffaith y bydd y gwaith a'r contractau gwasanaeth cwsmeriaid yn cael eu tendro'n gystadleuol o'r cychwyn. Bydd hyn yn lleihau'r perygl petai'r deiliad yn darparu'r gwasanaethau ar y dechrau ac felly yn dymuno cadw staff allweddol ei hun yn hytrach na'u trosglwyddo i'r perchennog asedau. Mae'r dystiolaeth anecdotaidd sydd ar gael yn awgrymu bod y farchnad contractau wedi datblygu digon i sicrhau cystadleuaeth ar gyfer y contractau hyn.

Mae'n bosibl y bydd anawsterau ymarferol i Ofwat wrth wneud cymariaethau cost cadarn oherwydd cynhwysiad meintiau elw a risg mewn prisiau contract. Gallai'r anawsterau hyn gymhlethu'r trefniadau presennol ar gyfer cystadleuaeth gymharol. Fodd bynnag, mae Ofwat yn credu y bydd yn bosibl asesu effeithiolrwydd Dwr Cymru a defnyddio ei berfformiad mewn cymhariaeth ag ymgymerwyr eraill. Mae'r amod pryniant arfaethedig yn cynnwys cymal a fyddai'n gofyn i Glas ddarparu gwybodaeth eglur i Ofwat mewn perthynas â chostau contractwyr.

Ymgynghori â chwsmeriaid

Ni fydd cwsmeriaid yn dod yn berchnogion Glas na Dwr Cymru, fel dan gorff ar y cyd, felly ni fydd angen pleidlais o'r holl gwsmeriaid. Mae Ofwat yn fodlon bod Glas wedi cynnal ymgynghoriad mor llawn ag y gellid ei ddisgwyl. Mae'r ymgynghoriad hwn wedi ei ddisgrifio yn Atodiad A.

Annibyniaeth o'r perchennog presennol

Mae Ofwat yn fodlon bod Glas yn annibynnol o'r perchennog presennol, WPD. Mae ganddo fwrdd a arweinir gan gyfarwyddwr annibynnol anweithredol ac mae'n ymddangos bod pryniant Dwr Cymru wedi ei drafod ar sail 'hyd braich'. Mae'r pris a gytunwyd yn is na'r RCV y mae cyfyngiadau prisiau yn seiliedig arno.

Aelodaeth

Mae Ofwat yn rhannu'r pryderon a godwyd gan ymatebwyr bod yna botensial i aelodau Glas gael eu dal gan grwpiau diddordeb arbennig. Byddai Ofwat yn disgwyl i Glas wneud yr egwyddorion sy'n llywodraethu'r broses benodi yn glir a chynnal y broses recriwtio mewn modd agored ac eglur yn unol ag arfer gorau i sicrhau y lleddfir y peryglon hyn.

Bydd gan aelodau'r pwer ffurfiol i gyfeirio polisïau bwrdd Glas. O ganlyniad, fel rhagofal pellach bydd amod trwydded newydd yn cael ei gyflwyno yn gofyn i Dwr Cymru gael ymroddiad gan Glas yn ei wahardd rhag gwneud newidiadau i'w Femorandwm ac Erthyglau Cwmni heb ganiatâd Ofwat.

Nid yw Ofwat yn credu bod angen enwi'r holl aelodau cyn y pryniant.

4. CASGLIADAU

Wrth archwilio cynigion Glas, mae Ofwat o'r farn bod rhaid iddo fod yn fodlon bod buddiannau cwsmeriaid yn cael eu diogelu a bod effeithiolrwydd rheoledig, ar gyfer Dwr Cymru a'r diwydiant yn ei gyfanrwydd yn cael ei gadw. Mae'r rhain yn ofynion parhaol dros y tymor hir. Mae'n rhaid i Ofwat sicrhau bod materion diogelwch ac ansawdd yn cael eu diogelu'n gywir a bod y risg o fethiant yn cael ei leihau. Lle ceir risgiau ychwanegol a allai effeithio cwsmeriaid, mae'n rhaid i Ofwat fod yn fodlon bod y manteision i gwsmeriaid Dwr Cymru wedi eu sefydlu'n glir ac yn gwrthbwyso'r ansicrwydd.

Yn bwysicaf oll, mae Glas yn credu bod ei gynigion yn cynnig y potensial am ostyngiadau o hyd at 25% yn ei gostau ariannu (o'u cymharu â'r rhai yn y rhagdybiaethau cyfyngiad pris presennol). Mae costau ariannu yn cynrychioli oddeutu traean o filiau cwsmeriaid. Er mae'n bosibl y bydd costau gwrthbwysol, pe bai modd cynnal y mantais hwn, byddai'n galluogi Dwr Cymru i ddarparu manteision sylweddol posibl i gwsmeriaid o ran gostyngiadau yn eu biliau. I bwysleisio'r pwysigrwydd hwn, dylai Bwrdd Glas wneud ymroddiad cyhoeddus cynnar ar amseru a graddfa'r gostyngiadau ym miliau cwsmeriaid.

Fodd bynnag, mae elfennau clir o risg yng nghynigion Glas fel a amlinellwyd gan y tri phrif fater a gododd o'r ymgynghoriad. Mae rhai'n codi oherwydd nad oedd model Glas wedi ei brofi yn y diwydiant dwr yng Nghymru a Lloegr. Ni ariannir unrhyw ymgymerwr dwr arall yn gyfan gwbl gan ddyledion, er mae yna batrwm cyffredinol o fwy o geriad. Mae gan y model o gwmni a gyfyngir gan warant yn hytrach nag un y mae buddsoddwyr yn berchen arno risgiau ar gyfer anogaethau ond mae ganddo rhagesiamplau mewn sectorau eraill, er bod hyn mewn amgylchedd cystadleuol. Mae lled gyrru gwasanaethau allan yn cario risg ar gyfer rheolaeth gywir y gwaith.

Cyn belled ag sy'n bosibl, mae Glas wedi gweithredu'n briodol i ymdrin â'r risgiau hyn a'r meini prawf a osodwyd allan yn y papur ymgynghori. Mae hyn yn cynnwys:

(i) y cynnig i gael cronfeydd cychwynnol sylweddol, i'w cynyddu dros amser drwy gadw'r holl weddillion masnachu i ddechrau fel diogelwch rhag ansicrwydd;
(ii) archwiliad ar ran deiliaid bond, yn enwedig gan yr yswirwyr credyd, MBIA;
(iii) bwrdd a arweinir gan gyfarwyddwyr annibynnol anweithredol a thrafodaeth 'hyd braich' o'r pris pryniant, sy'n is na'r RCV;
(i) anogaethau perfformiad ar gyfer rheolwyr gweithredol Glas a Dwr Cymru sy'n benodol gysylltiedig â mesurau perfformiad ar ansawdd a phris i gwsmeriaid, a danlinellir gan;
(v) ddatganiad polisi ar ostyngiadau targedig mewn biliau cwsmeriaid o 2003/04 ymlaen;
(vi) trefniadau ar gyfer penodiad a swyddogaeth aelodau Glas i sicrhau eu bod yn parhau i ganolbwyntio ar ei faterion masnachol;
(vii) strategaethau pryniant i sicrhau gallu Dwr Cymru i gyflawni ei fusnes a chymryd y llyw os nad yw contractwyr yn perfformio'n foddhaol.

Mae Glas hefyd wedi cymryd camau i ddiwallu'r meini prawf eraill a nodwyd gan Ofwat yn y papur ymgynghori ac mewn ymateb Ofwat i'r cynigion ailstrwythuro a wnaed gan Kelda ym Mehefin 2000. Mae'n hollol annibynnol o berchennog y deiliad trwydded presennol ac wedi cyflawni rhaglen ddigonol a chyfnod o ymgynghoriad i sicrhau bod cwsmeriaid yn cael gwybodaeth am ac yn deall y cynigion.

Mae'n amhosibl dileu pob risg. Fodd bynnag, mae rheolaeth Dwr Cymru gan Hyder wedi dangos bod y model cyfranddalwyr ecwiti arferol hefyd yn agored i ergydion cost a rheolaeth wael. Ni ellir asesu ar hyn o bryd pa un a fydd strwythur Glas yn ddigon hyblyg neu â digon o anogaethau i ymateb yn effeithiol i ddatblygiadau yn y diwydiant dwr neu farchnadoedd ariannol yn y dyfodol. Dim ond dros y tymor hir y gellir barnu pa un a oes gan un model fanteision annatod a pharhaol dros un arall ar gyfer cwsmeriaid a chyllidwyr.

Ystyriaeth bwysig arall yw bod hapddalwyr yng Nghymru, yn enwedig y Cynulliad a PGC wedi mynegi cefnogaeth eang am y cynigion ac nid oes tystiolaeth bod gan gwsmeriaid unrhyw wrthwynebiadau cryf i'r cynigion.
Yn sgil hyn ac ystyriaethau eraill a esbonir yn y papur hwn, mae'r Cyfarwyddwr wedi casglu na ddylai Ofwat wrthwynebu'r cynigion, os bydd Glas yn cyflawni'r chwech amod a osodwyd allan yn ei grynodeb, a dylid caniatáu Glas i brofi pa un a all gael y cyllid angenrheidiol, ar gyfradd credyd buddsoddiad sy'n gyson â'i gynllun ariannu.

Mae nawr yn fater i'r farchnad benderfynu pa un a yw'n barod i ddarparu'r cyllid hirdymor ar y lefel a'r termau a ofynnir gan Glas er mwyn i'r pryniant fynd yn ei flaen a chaniatáu i Glas ddatblygu'r cronfeydd angenrheidiol a chreu ad-daliadau i gwsmeriaid. Wrth wneud hyn, bydd buddsoddwyr yn rhoi eu hymroddiad eu hunain ond dylent wneud hyn gan wybod safbwynt Ofwat fel a osodir allan yn y papur hwn ac yn y llythyrau at Reolwyr Gyfarwyddwyr y cwmnïau dwr (MD166 a MD167) a gyhoeddir heddiw[3].

I gloi, mynegwyd pryderon gan ymatebwyr, gan gynnwys Gweinidogion y Llywodraeth, ynghylch y rhagesiampl y gallai cynigion Glas sefydlu ar gyfer cwmnïau dwr yn Lloegr. Mae gweinidogion yn poeni ynghylch y peryglon sy'n annatod yn y strwythur newydd. Byddai Ofwat ei hun yn poeni petai nifer sylweddol o gwmnïau yn penderfynu dilyn, cyn i'r model o gwmni a ariannir yn hollol gan ddyledion sy'n gyrru gwasanaethau'n allanol gael ei brofi.

Ni fydd model sy'n ymddangos yn briodol ar gyfer amgylchiadau penodol Dwr Cymru o angenrheidrwydd yn briodol ar gyfer diwydiant dwr Lloegr, lle mae'r model cyfranddalwyr ecwiti wedi perfformio'n dda. Mae'n bosibl na ellir ailgyflwyno nifer o ffactorau o achos Glas mewn achosion eraill. Mae'r rhain yn cynnwys cefnogaeth eang y corff democrataidd atebol, y Cynulliad; dymuniad y perchennog presennol, WPD i beidio â bod yn rhan o'r sector dwr; a'r gostyngiad sylweddol yn y pris prynu ac anibynniaeth glir y prynwr a'r gwerthwr. Fodd bynnag, bydd Ofwat yn parhau i arolygu, yn ofalus ac yn deg, unrhyw gynigion a gyflwynir.

5. Y FFRAMWAITH RHEOLIADOL

Os bydd cynnig Glas yn cael ei gytuno, ni fydd Dwr Cymru yn derbyn unrhyw driniaeth arbennig gan Ofwat. Bydd yn parhau fel y Penodedig â holl rwymedigaethau trwydded ymgymerwr dwr a charthffosiaeth. Bydd yn cael ei reoleiddio yn yr un ffordd â chwmnïau eraill.

Bydd ei berfformiad o ran effeithiolrwydd a gwasanaeth i'r cwsmer yn cael ei asesu yn yr un ffordd ac yn cael ei gymharu â chwmnïau eraill. Bydd cyfyngiadau pris yn cael eu hail-osod bob pum mlynedd drwy ddefnyddio methodoleg diwydiant gyfan. Bydd tybiaethau effeithiolrwydd yn cael eu tynnu o berfformiad cymharol a byddant yn cael eu defnyddio i osod cyfyngiadau pris. Bydd raid i Glas, felly, sicrhau ei fod yn ddigon hyblyg i ymateb i newidiadau mewn cyfyngiadau pris yn y dyfodol. Ni ellir sicrhau y bydd costau yn cael eu pasio ymlaen i gwsmeriaid. Mae hyn yn gymwys ar gyfer costau ariannu, gweithredu a chyfalaf.

I sicrhau eglurder yn y materion hyn, mae Ofwat wedi cyhoeddi datganiad heddiw ar berfformiad ei swyddogaethau mewn llythyr agored i Reolwyr Gyfarwyddwyr yr holl gwmnïau dwr (MD166).

Bydd Ofwat yn sicrhau bod buddiannau cwsmeriaid yn parhau i gael eu diogelu drwy ddarpariaethau Deddf Diwydiant Dwr 1991 ac ni fydd y Cyfarwyddwr yn oedi cyn gweithredu er budd y cwsmeriaid. Mae hyn yn cynnwys, fel cam olaf, pwerau i ymgeisio i benodi Gweinyddydd Arbennig.

[3] Mae copïau o'r llythyrau hyn ar gael ar wefan Ofwat (www.ofwat.gov.uk) neu o lyfrgell Ofwat.

6. DIWYGIADAU TRWYDDED

Os bydd y cynigion yn mynd yn eu blaenau, bydd Ofwat yn gofyn i Glas gytuno ar becyn o ddiwygiadau trwydded arfaethedig. Mae Glas wedi cytuno, mewn egwyddor, i'r diwygiadau hyn a fydd yn ymdrin â chanlyniadau rheoledig y cynigion, cyn belled ag sy'n bosibl ar yr adeg hon. Maent yn anelu at sicrhau bod Dwr Cymru yn:

(i) cynnal rheolaeth dros ei ddyletswyddau statudol pan ddarperir gwasanaethau gan drydydd parti;
(ii) cynnal rheolaeth gywir o gwmpas y busnes rheoledig;
(iii) dilyn arfer gorau mewn perthynas â llywodraeth gorfforedig;
(iv) gallu darparu'r wybodaeth sydd ei hangen ar Ofwat (gan gynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â chontractwyr) i reoleiddio Dwr Cymru a'i gymharu â chwmnïau cyfatebol yng Nghymru a Lloegr.

Mae Glas yn dymuno diwygio'r amodau yn nhrwydded Dwr Cymru sy'n caniatáu ar gyfer ail-osod cyfyngiadau pris rhwng Arolygon Achlysurol. Maent fel a ganlyn: ailosod newid cymesurol perthnasol ar gyfer chwyddiant pris cyfalaf; ailosod 'cymal chwalfa' cymesurol; a diwygio'r prawf llog ar gyfer penderfyniadau interim i adlewyrchu cyllid dyledion Dwr Cymru. Mae gan gwmnïau dwr eraill amodau tebyg ac mae Glas yn credu y byddai gwneud y diwygiadau hyn yn pwysleisio natur risg isel y busnes i fenthycwyr.

Mewn perthynas â'r trydydd o'r amodau hyn, mae angen y newid gan fod geriad presennol yr amod yn anymarferol ar gyfer cwmni a ariannir yn gyfan gwbl gan ddyledion. Mae Ofwat felly yn fodlon y dylid diwygio'r amod hwn.

Mae'r amod trwydded ar chwyddiant pris cyfalaf yn caniatáu cwmnïau i arolygu eu cyfyngiadau os yw chwyddiant gwariant cyfalaf yn uwch na'r hyn a ragwelwyd ar adeg yr Arolwg Achlysurol diwethaf. Mae'r 'cymal chwalfa' yn darparu ar gyfer arolygon prisiau yn dilyn digwyddiadau mawr heb eu rhagweld sydd y tu hwnt i reolaeth bwyllog cwmnïau unigol y mae disgwyl iddynt gael effaith fawr ar eu sefyllfa ariannol.

Nid yw Ofwat yn bwriadu gwneud y ddau newid hwn ar hyn o bryd. Mae Ofwat wedi cyhoeddi ail lythyr MD heddiw[4], sy'n dechrau'r broses o ddileu amrywiaethau yn amodau trwydded cwmnïau. Fel rhan o'r broses hon, mae pob cwmni yn cael cynnig y cymal 'chwalfa' yn y llythyr hwn. Bydd Ofwat yn ystyried yr amod chwyddiant pris cyfalaf fel rhan o'i arolwg ehangach o gysondeb rhwng trwyddedau cwmnïau.

Ceir crynodeb o'r holl ddiwygiadau trwydded arfaethedig yn Atodiad B. Mae testun llawn y diwygiadau trwydded arfaethedig ar gael ar wefan Ofwat (www.ofwat.gov.uk).

[4] Mae copïau o'r llythyr hwn (MD167) ar gael ar wefan Ofwat (www.ofwat.gov.uk) neu o lyfrgell Ofwat.

ATODIAD A: YMGYNGHORIAD

Ceisiwyd barn y rhai â diddordeb mewn cynigion Glas mewn tair ffordd:
- papur ymgynghori Ofwat;
- ymgynghoriad cwsmer Glas ei hun; a
- chyfarfodydd cyhoeddus a gadeiriwyd gan PGC Cymru.

Prif themâu yn deillio o bapur ymgynghori Ofwat

Derbyniwyd mwy na 50 ymateb i'r papur ymgynghori. Rhoddir rhestr o'r ymatebwyr ar ddiwedd yr Atodiad hwn ac mae copïau o'r ymatebion (heblaw am y rhai a farciwyd yn gyfrinachol) wedi eu gosod yn llyfrgell Ofwat. Mae'r barnau a fynegwyd gan grwpiau gwahanol wedi eu crynhoi isod.

Sefydliadau ariannol

Tra bod rhai ymatebwyr o'r Ddinas yn cefnogi'r model ecwiti presennol, roedd eraill yn cydnabod manteision posibl y strwythur arfaethedig.

Mynegwyd ychydig o bryderon ynghylch cynaladwyedd hirdymor cwmni a ariannir yn gyfan gwbl gan ddyled a'i allu i godi unrhyw gyllid newydd i ariannu ei raglen cyfalaf yn y dyfodol. Roedd hefyd pryderon bod ariannu'r strwythur arfaethedig yn dibynnu ar warant canfyddedig o fewn Deddf Diwydiant Dwr 1991 y mae'n rhaid i Ofwat sicrhau y gall cwmnïau ariannu eu gweithgareddau rheoledig. O ganlyniad, byddai'n bwysig i'r rheolydd wneud ei ddyletswyddau'n glir o ran ariannu'r cwmnïau trwyddedig. (Mae Ofwat wedi egluro ei safbwynt yn glir heddiw mewn llythyr agored i Reolwyr Gyfarwyddwyr yr holl gwmnïau dwr (MD166)).

Roedd eraill yn credu bod y diwydiant dwr yn fusnes risg isel; bod y strwythur arfaethedig yn ddeniadol i fuddsoddwyr nawr ac yn y dyfodol; a bod ganddo'r potensial i gael arbediadau o ostyngiad i'r cyfartaledd gost cyfalaf, heb gynyddu risgiau i gwsmeriaid.

Nid oedd cytundeb pa un a fyddai deiliaid bond ac aelodau Glas, yn absenoldeb cyfranddalwyr, yn rhoi digon o bwysau ar reolwyr i gael effeithiolrwydd parhaol. Awgrymodd un y dylid cysylltu cyflogau uwch reolwyr Glas â chynnal marc credyd cyfradd buddsoddiad.

Cwsmeriaid a grwpiau defnyddwyr

Ni fynegodd PGC ar gyfer Cymru unrhyw wrthwynebiad i'r egwyddor o gwmni a ariannir gan ddyled. Nid oedd yn argyhoeddedig bod y model a ariannir gan ecwiti wedi dod â manteision mawr i gwsmeriaid yng Nghymru. Yn ei ymateb, pwysleisiodd y pwysigrwydd o sichrau bod y model newydd yn ymarferol ac yn cynnwys rhagofalon digonol i gwsmeriaid. Nododd y byddai croeso i ddatganiad clir ar ostyngiadau mewn prisiau a phwysleisiodd yr angen i sichrau nad oedd aelodau Glas yn cael eu harwain gan ddiddordebau adrannol.
Croesawyd y potensial am ad-daliadau i gwsmeriaid ond roedd cydnabyddiaeth na ddylai talu ad-daliadau i gwsmeriaid beryglu gallu'r cwmni i ymateb i ergydion cost.

Roedd ymatebwyr eraill yn poeni am y posibilrwydd o aelodau Glas yn cael eu 'dal' gan grwpiau diddordeb arbennig.

Dywedodd un ymatebydd nad oedd unrhyw reswm pam ddylai lefelau gwasanaeth fod yn llai o ganlyniad i yrru gwasanaethau'n allanol ond roedd yn cydnabod bod rhaid i'r cwmni gadw'r gynhaliaeth graidd angenrheidiol.

Roedd dau gwsmer yn credu y dylid ehangu'r cyfnod ymgynghori. Roedd un yn credu bod pleidlais o'r holl gwsmeriaid yn briodol.

Rheolyddion eraill a llywodraeth

Mynegodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru gefnogaeth fras am gynigion Glas. Croesawodd y Gweinidog Cyntaf, ar ran CCC, y ffaith y byddai Dwr Cymru yn cael ei leoli a'i reoli o Gymru ond pwysleisiodd y dylai buddiannau cwsmeriaid fod yn bennaf o ran pris a buddsoddiad parhaol mewn gwelliannau amgylcheddol.

Roedd ymatebwyr eraill yn ystyried bod risgiau sylweddol i gwsmeriaid nad ydynt yn bresennol yn y model ecwiti presennol. Yn benodol, os na fydd y cronfeydd yn ddigon i gwmpasu ergydion cost, byddai pwysau ar gwsmeriaid i gwrdd â'r diffyg.

Roedd y pwysigrwydd o'r holl gwmnïau dwr yn cael eu trin yn gyfartal mewn arolygon pris hefyd yn cael ei bwysleisio, ynghyd â'r angen am hyblygrwydd o fewn Glas i'w alluogi i ddarparu gwasanaethau petai contractwr yn methu. Pwysleisiwyd na ddylid gweld y strwythur arfaethedig fel "model newydd" ar gyfer yr holl wasanaethau cyhoeddus.

Grwpiau amgylcheddol

Roedd mwyafrif y grwpiau amgylcheddol wedi eu lleoli yng Nghymru ac roeddent yn gyffredinol o blaid y cynnig. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn credu bod gan y strwythur a gynigiwyd gan Glas fanteision i'r amgylchedd. Croesawyd y disgwyliad o ad-daliadau i gwsmeriaid. Pwysleisiodd un ymatebydd y pwysigrwydd o'r cwmni'n cadw cronfeydd digonol. Croesawodd dau ymatebydd y diwygiadau trwydded a gynigiwyd gan Ofwat.

Y cwmnïau dwr rheoledig yn Lloegr

Mynegwyd amryw farnau ar y strwythur fwyaf priodol ar gyfer cwmni dwr. Er eu bod o blaid gwahanu asedau a pherchnogaeth, nid oedd rhai cwmnïau yn cefnogi perchnogaeth asedau ar y cyd neu ddi-elw. Roedd rhai yn ystyried bod y strwythur yn ffordd bositif ymlaen i'r diwydiant ac roeddent yn credu bod manteision go iawn i gwsmeriaid a'r cwmnïau dwr. Mae cwmnïau eraill yn dal i gredu y dylid defnyddio'r model ecwiti presennol. Pwysleisiwyd na ddylid gorfodi unrhyw strwythur arall ar unrhyw gwmni.

Ar y mater o anogaethau effeithiolrwydd, roedd yna wahanol farnau. Roedd awgrym y byddai anogaethau yn cael eu darparu gan ddymuniad deiliaid bond i weld cyfradd credyd y cwmni'n cael ei chynnal.

Roedd ymatebwyr yn cydnabod pwysigrwydd y cwmni'n cadw rheolaeth ddigonol dros ei waith a nodwyd bod gallu'r cwmni i wneud hyn yn dibynnu'n rhannol ar dermau ac amodau'r contractau a gytunir gyda'i ddarparwyr gwasanaeth.

Roedd un cwmni'n credu bod cais Glas am ailsefydlu'r cymal 'chwalfa' yn dystiolaeth o drosglwyddo risg o'r cwmni i'r cwsmer. Datganodd un arall na ddylid rhoi'r diwygiadau trwydded yr oedd Glas yn eu dymuno i Dwr Cymru yn unig gan fod hyn yn driniaeth arbennig.

Ymgynghoriad cwsmer Glas

Mae Glas wedi cynnal ei ymchwil farchnad ei hun, mewn ymgynghoriad ag Ofwat a PGC Cymru, yn cynnwys arolwg o oddeutu 1,000 cwsmer i weld beth oedd yr ymateb yn gyffredinol ac ymwybyddiaeth o gynnig Glas. Cynhaliwyd wyth trafodaeth grwp ffocws ym mhedair rhan o Gymru.

Canlyniad allweddol yr arolwg oedd nad oedd gan gwsmeriaid fawr o ddiddordeb ym mherchnogaeth Dwr Cymru, gyda dim ond 3% yn gwybod ei fod wedi cael ei brynu gan WPD. Ar ôl cael eu hatgoffa, roedd 22% o gwsmeriaid yn ymwybodol o gynnig Glas. O'r 22% hyn, roedd dros hanner yn credu bod y cynnig yn beth da gyda dim ond 1 allan o 10 yn ei weld fel rhywbeth drwg; ni fynegodd y gweddill unrhyw farn.

Prif ganlyniadau'r grwpiau ffocws oedd nad oedd perchnogaeth, rheolaeth a strwythur Dwr Cymru yn fater o bwys. Roedd cwsmeriaid yn dymuno ei weld dan berchnogaeth Cymreig ond nid oeddent yn poeni'n fawr os nad oedd. Ansawdd a chost y gwasanaeth yw'r prif faterion a thra bod cwsmeriaid am weld biliau sylweddol is, mae ansawdd a pharhad gwasanaeth yn hollbwysig. Nodwyd pryderon ynghylch gyrru gwasanaethau'n allanol, gan gynnwys diffyg rheolaeth o gontractwyr a cholli swyddi lleol.
Mae cwsmeriaid yn hoffi'r syniad o gwmni di-elw a'r ffaith y byddai'n ymwneud â darparu gwasanaethau dwr a charthffosiaeth yn unig. Fodd bynnag, cafwyd rhai pryderon bod aelodau Glas Cymru yn gwango arall yn darparu 'swyddi i'r bechgyn'.

Yn gyffredinol, datgelodd yr ymchwil nad oedd cefnogaeth na gwrthwynebiad cryf i'r cynnig. Roedd ychydig o gefnogaeth ar gyfer rhai agweddau o'r cynigion ond roedd hefyd pryderon ynghylch yr agweddau gyrru allan.

Yn ychwanegol, arolygodd Glas sampl o ffurfwyr barn. Roedd y rhain yn gefnogol ar y mwyaf gyda'r prif bryderon yn canolbwyntio ar ddewis a rôl yr aelodau a gyrru gwasanaethau yn allanol.

Cyfarfodydd a gadeiriwyd gan PGC Cymru

Cynhaliwyd dau gyfarfod cyhoeddus, un yn Ne Cymru (Cwmbran) a'r ail yng Ngogledd Cymru (Llandudno). Pwrpas y cyfarfodydd hyn oedd rhoi gwybodaeth i'r mynychwyr am gynigion Glas a'r materion a oedd angen ystyriaeth. Gwahoddwyd y mynychwyr i ofyn cwestiynau i unrhyw un neu bob un o'r cyrff a oedd yno (Glas, ADY, ac Ofwat).

Er gwaethaf cyhoeddusrwydd sylweddol, roedd presenoldeb y cyhoedd yn isel. Ni chodwyd unrhyw faterion ychwaengol i'r rhai a godwyd o bapur ymgynghori Ofwat yn y naill gyfarfod. Roedd llawer o weithwyr Dwr Cymru yng nghyfarfod Llandudno ac felly bu diogelu swyddi yn brif bwnc trafod.

Rhestr o'r ymatebwyr i'r papur ymynghori

Sefydliadau ariannol

Credit Suisse
M & G*
Merrill Lynch*
Gerald Holtham
Royal Bank of Scotland
St David's Capital*
Scottish Widows

Cwsmeriaid a grwpiau defnyddwyr

Ymgyrch dros Gamddefnyddio Monopoli
Cymdeithas Defnyddwyr
Cynghorydd G Jones
Pwyllgor Gwasanaeth Cwsmer Cymru
Francis Balsam Associates
Griffith Einion Owens
John Owen
Menter a Busnes
Public Utility Reform Group (PURGe)
Simon Thomas, AS
Cyngor Defnyddwyr Cymru

Rheolyddion eraill a llywodraeth

Arolygiaeth Dwr Yfed
Asiantaeth yr Amgylchedd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Ofgem

Grwpiau amgylcheddol

Ymddiriedolaeth Cwm Elan
Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Green Sea Partnership
Cymdeithas Cadwraeth Arforol
Gerddi Botanegol Cenedlaethol
Ymddiriedolaeth Genedlaethol
Oxford Centre for Environmental Ethics & Society
Surfers Against Sewage
Cymru Cynaliadwy
Prydain Taclus

Cwmnïau dwr yng Nghymru a Lloegr

Albion Water
Bristol Water
Glas Cymru Cyfyngedig
Northumbrian Water
Severn Trent Water*
South East Water
South West Water
Southern Water Services
Vivendi Water UK
Yorkshire Water / Kelda

Eraill

Alan Booker
CBI Cymru
Centrica
CEW & Cymuned Cymru
Eleri Carrog
GMB
Plaid Cymru Annibynnol
John Hall
Eisteddfod Genedlaethol
Partnerships UK
Unsain

* Marciwyd yr ymatebion hyn yn gyfrinachol.

ATODIAD B: CRYNODEB O'R DIWYGIADAU TRWYDDED ARFAETHEDIG

Os bydd y cynigion yn cael eu derbyn, bydd Ofwat yn gofyn i Glas gytuno ar ran Dwr Cymru, i becyn o ddiwygiadau trwydded ac amodau trwydded newydd. Gosodir y rhain allan isod ac maent yn cynnwys y diwygiadau trwydded a gytunwyd gyda WPD wrth brynu Hyder.

Mae Glas eisoes wedi cytuno i'r diwygiadau hyn mewn egwyddor. Os bydd Glas yn cytuno i'r rhain yn fanwl, bydd y Cyfarwyddwr yn cychwyn cyfnod o ymgynghoriad statudol ar y diwygiadau. Petai Glas yn penderfynu peidio â derbyn y diwygiadau, mae gan y Cyfarwyddwr y pwer i'w cyfeirio at y Comisiwn Cystadlu am benderfyniad. Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru bwer hefyd i ofyn i'r Cyfarwyddwr beidio â gwneud diwygiadau penodol. Os yw'r Cyfarwyddwr yn credu na fyddai o fudd i'r cyhoedd wneud y diwygiadau hyn, mae'n rhaid iddo eu cyfeirio at y Comisiwn Cystadlu am benderfyniad.

<u>Prynu gwasanaethau a rheoli gweithrediadau</u>

- Trwydded amod newydd yn gofyn i Dwr Cymru gyflwyno Cynllun Pryniant i'r Cyfarwyddwr.

- Diwygiad trwydded yn gwahardd Dwr Cymru rhag dirprwyo cyfrifoldeb am berfformiad cywir ei swyddogaethau statudol i drydydd parti.

- Cryfhau cymal trwydded presennol F6 sy'n gofyn i gwmnïau dwr gael adnoddau ariannol a rheoli digonol ac ardystio hyn yn ffurfiol i Ofwat. Diwygiad i orfodi Dwr Cymru i sicrhau bod ganddo systemau cynllunio a rheoli digonol, yn ogystal ag adnoddau ariannol a rheoli digonol, i gyflawni ei weithgareddau rheoledig. Bydd gofyn i Dwr Cymru gydymffurfio â chyfarwyddyd ar reolaeth fewnol, i'w gyhoeddi gan y Cyfarwyddwr, i sicrhau ei fod yn cwrdd â'i rwymedigaethau cyfreithiol ac yn gallu cyflawni ei swyddogaethau.

<u>Cryfhau clustnodi ariannol</u>

- Amod trwydded newydd sy'n gwahardd Dwr Cymru rhag dal neu gael buddsoddiadau o unrhyw fath, heblaw am fuddsoddiadau mewn cwmnïau sy'n cyflawni un neu fwy o'r gweithgareddau a ganiateir i Dwr Cymru (ond dim gweithgaredd arall), is-gwmnïau a ffurfiwyd yn unig at y pwrpas o godi cyllid ar gyfer gweithgareddau Dwr Cymru a ganiateir, a buddsoddiadau a gafwyd o waith rheoli trysorlys arferol Dwr Cymru, a bod ganddo'r rheolaeth risg briodol a gweithdrefnau llywodraethu eraill mewn lle.

- Diwygiad trwydded sy'n gwahardd Dwr Cymru neu unrhyw is-gwmni gan Glas rhag cyflawni gweithgareddau heblaw am y rhai sydd eu hangen neu sy'n gysylltiedig ag ymgymerwr dwr a charthffosiaeth.

- Diwygiad trwydded sy'n gofyn am wahardd codi unrhyw gyllid ar gyfer y busnes rheoledig ar dermau sy'n cynnwys cyfamodau diffyg croes.

- Diwygiad trwydded sy'n gofyn i Dwr Cymru gynnal gradd buddsoddiad gorfforedig bob amser.

Llywodraeth gorfforedig

- Diwygiadau trwydded sy'n gofyn i Dwr Cymru gael ymroddiad gan Glas y gellir ei orfodi'n gyfreithiol:
  - yn gwahardd Glas rhag gwneud unrhyw newidiadau i'r Femorandwm ac Erthyglau Cwmni heb ganiatâd Ofwat.
  - y bydd Glas yn darparu gwybodaeth y mae'n rhesymol i'r Cyfarwyddwr ofyn amdano mewn perthynas â gweithgareddau a chyllido Glas.
  - y bydd Glas yn darparu'r wybodaeth angenrheidiol i ganiatáu i Dwr Cymru gydymffurfio â'i Drwydded.
  - y bydd Glas yn ymatal o unrhyw weithgaredd a fyddai'n golygu bod y cwmni dwr yn torri ei Drwydded.

- Diwygiad trwydded sy'n gofyn i fwrdd Dwr Cymru gydymffurfio â'r Egwyddorion Llywodraeth Dda a Chôd Arfer Gorau (neu unrhyw ddogfen olynol) fel a gymeradwywyd at bwrpasau Rheolau Rhestru Awdurdod Rhestru'r DU.

- Diwygiad trwydded sy'n gofyn i fwrdd Dwr Cymru gael mwyafrif o gyfarwyddwyr anweithredol.

Argaeledd gwybodaeth am farchnadoedd a gwybodaeth arall

- Diwygiad trwydded yn gofyn i Dwr Cymru gyhoeddi gwybodaeth mewn perthynas â'i sefyllfa ariannol a masnachol a chanlyniadau ei waith yn unol â'r Rheolau Rhestru ar gyfer cwmni â chyfranddaliadau cyffredin a restrir ar Gyfnewidfa Stoc Llundain.

- Diwygiad trwydded sy'n gofyn i Dwr Cymru gynnal rhestr o offeryn ariannol Dwr Cymru (naill ai bond â chwpon sy'n gysylltiedig â gradd neu gyfranddaliad dewisol).